# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

**RHIF 123** **MAWRTH 1986**


# DIAR DIAR DOCTOR

PARHAU MAE argyfwng Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Ni lwyddodd cyfarfod o Lys yr Amgueddfa ar 21 Chwefror i roi terfyn ar yr anniddigrwydd cynyddol a fynegir ynghylch gweinyddiad yr Adran Gelf.

Penderfynodd y Llys i wahardd ceidwad yr Adran Gelf, y Dr. Peter Cannon-Brookes, o'i swydd ac i gynnal ymchwiliad i weinyddiad yr adran o dan gadeiryddiaeth Douglas Baker, cadeirydd cwmni cyfrifyddion siartredig Touche Ross. Mae'r ymchwiliad eisoes ar droed, a disgwylir y canlyniad ymhen y mis. Yn y cyfamser bydd y Dr. Cannon-Brookes ar gyflog llawn. Credir bod ei ddyfodol yn yr Amgueddfa yn ddibynol ar ganlyniad yr ymchwiliad.

Parhau a wna'r dadlau ynghylch dilysrwydd y pedwar cartwn yr honir eu bod o waith yr arlunydd Rubens. Trechwyd cynnig gan yr Athro Emeritus Mansel Davies i geisio gwerthu'r darluniau yn ôl i'r oriel a'u gwerthodd i'r amgueddfa am £1.2 miliwn, a hynny ar waetha'r ffaith bod dau o'r tri arbennigwr a gomisiynwyd i ddyfarnu ar y mater o'r farn bendant mai nid gwaith Rubens ydynt.

Yn y cyfamser bydd yr arddangosfa o brif drysorau'r Adran Gelf, a drefnwyd gan y Dr. Cannon-Brookes, yn agor yn Siapan ar Fawrth 14.

Dyma'r sefyllfa truenus sy'n wynebu Cyfarwyddwr newydd yr Amgueddfa, y Dr. David Dykes, a benodwyd yn ddiweddar ar argymhelliad unfrydol pwyllgor penodi arbennig gyda Syr David Wilson, Cyfarwyddwr yr Amgueddfa Brydeinig, yn aseswr allanol.

Bu Dr.Dykes, sy'n 52 mlwydd oed, yn Ysgrifennydd yr Amgueddfa ers 1972, ac yn Gyfarwyddwr Gweithredol ers mis Gorffennaf y llynedd yn dilyn ymddeoliad y Dr.Douglas Bassett.

Brodor o Abertawe ydyw ac mae'n ymfalchio yn ei dras Cymreig; mae ei deulu'n hanu o Langyfelach ac ardal "Gwŷr y Gloran" yn y Rhondda Fawr. Y mae'n briod a chanddo ddwy ferch.






Dr. David W.Dykes - Cyfarwyddwr newydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg Abertawe a Choleg Corpus Christi, Rhydychen, lle graddiodd mewn hanes diweddar. Yn dilyn tymor yn y llynges, lle derbynodd gomisiwn, ymunodd Dr.Dykes â'r Gwasanaeth Sifil ac fe'i penodwyd i swyddi gweinyddol ym Mhrifysgol Bryste a Choleg y Brifysgol, Abertawe.

Ym 1963 fe'i penodwyd yn Ddirprwy Gofrestrydd Coleg y Brifysgol a bu'n gweithredu fel Cofrestrydd am gyfnodau yn ystod y chwe blynedd dilynol. O 1969 tan 1972 bu'n Gofrestrydd Prifysgol Warwick ac oddi yno y daeth i swydd Ysgrifennydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Y mae Dr.Dykes yn awdur nifer o gyhoeddiadau yn ymwneud â niwmismateg a hanes ac yn ystod ei gyfnod yn Abertawe yr oedd yn Guradur Anrhydeddus a casgliad arian yn Sefydliad Brenhinol De Cymru, ac y mae'n aelod o Gyngor y Sefydliad hwnnw hyd heddiw. Y mae hefyd yn Gymrawd Cymdeithas Hynafiaethau Llundain, Y Gymdeithas Hanes Frenhinol, Cymdeithas Frenhinol Hynafiaethau Iwerddon a'r Gymdeithas Niwmismateg Frenhinol. Dernyniodd Wobr Parker-Weber y Gymdeithas olaf hon ym 1964. Ym 1982 enillodd Dr. Dykes radd Doethur Prifysgol Cymru am ei waith ymchwil ar ddatblygiad addysg uwch yn Abertawe a hanes Coleg y Brifysgol yno.

Y mae'n aelod o Fwrdd Gwybodau Celtaidd a nifer o gyrff llywodraethol yng Nghymru, rhai swyddogol a gwirfoddol, yn enwedig ym maes addysg uwch. Y mae hefyd yn aelod o Urdd y Gweithwyr Tunplat ac yn Rhyddfreiniwr Dinas Llundain.

## TU MEWN


Seiriol Davies yn holi pa ddyfodol sydd i Adran Gelf yr Amgueddfa Genedlaethol Tud.3

Gymerwch chi sigaret? Rhybudd amserol ynghylch peryglon smygu. Tud.6






Llywydd Plaid Cymru yn dangos ei ddoniau. Tud.7

Adolygiad o nofel ddiweddaraf Marion Eames, rhagflas o gyfrol all gadw cwmni, a chynnyrch barddonol Parti'r Dinesydd. Tud.8

Ar waetha caledi'r caeau, dal i lithro mae timau peldroed y Cymric ac Aelwyd-yr-Urdd. Tud.10

Croesair cywrain arall gan Ap Lewsyn Tud.11

# GOLYGYDDOL.

AR WAETHAF trafferthion Mrs.Thatcher a'i llywodraeth, erys yr etholiad cyffredinol nesaf beth amser i ffwrdd - efallai, yn bellach yn awr nag ydoedd cyn helynt Westland. Dengys y newid meddwl sydyn ynglych gwerthu Austin Rover i Ford, a phenderfyniad Nicholas Edwards i gynyddu'r cymorth ariannol a roddir gan y Swyddfa Gymreig i'r Cynghorau Sir, barodrwydd ar ran y llywodraeth i gyfaddawdu pan fo'r angen yn codi. Gallwn ddisgwyl llawer ymdrech gyffelyb i geisio sicrhau cefnogaeth yr etholwyr yn ystod y misoedd a ddaw.

Mae'r paratoi gogyfer â'r etholiad wedi cychwyn ac mae'r pleidiau wrthi'n barod yn hogi arfau ac yn llunio'u strategaeth. Eisoes gwnaeth Plaid Cymru hi'n amlwg ei bod am ganolbwyntio'i hegnion ar nifer cyfyngedig o etholaethau allweddol - ond hyd yma nid yw arweinyddiaeth y Blaid wedi ymrwymo i osod ymgeiswyr ym mhob etholaeth.

Yn ystod streic y glowyr, bu llawer o sôn am "wleidyddiaeth newydd" a chynghrair gwrth-Thatcheraidd. Pan ddarfu'r streic daeth y rhelyw o'r cydweithrediad i ben, a diflanodd nifer o'r gwleidyddion a fu'n rhannu llwyfannau yn ôl i'w ffosydd sectyddol.

Serch hynny mae pethau'n dal i fod yn wahanol iawn i'r 60au a'r 70au. Mae Plaid Cymru yn Arfon, Meirionydd, Ynys Mon, Caerfyrddin a Cheredigion wedi ennill ymddiriedaeth y bobl fel na wnaeth erioed o'r blaen, a dylai'r Blaid ennill tir ym mhob un o'r etholaethau hynny.

Mewn llawer etholaeth arall - fel y dangosodd is-etholiad Brycheiniog a Maesyfed - dyw cyraeddiadau'r Blaid ddim yn werth yr ymdrech. Bu sôn am beidio â gosod ymgeisydd i gystadlu'r is-etholiad. Yn wir, dyna oedd argymhelliad nifer o brif ymgynghorwyr llywydd y Blaid, Dafydd Elis Thomas. Ond fe'u trechwyd, a gwthiwyd y Blaid i'r un lefel a Screaming Lord Sutch a'i Monster Raving Loony Party.

Dyw'r wasgfa ar wleidyddiaeth Gymreig y soniwyd amdani yn sgil yr is-etholiad ddim yn mynd i ddiflannu pan ddaw'r etholiad cyffredinol, ac addas felly fyddai i'r i'r Blaid ail-feddwl ei strategaeth etholiadol.

Yng Nghaerdydd ym 1983 enillodd y Blaid 3,199 o'r 163,099 o bleidleisiau a fwriwyd. 974 y Dr.Dafydd Huws - 2.4% - yng Ngogledd Caerdydd oedd y perfformiad gorau. Yn yr etholiad nesaf bydd o leia dau o ymgeiswyr y Blaid Lafur yn Gymry Cymraeg sydd a phrofiad helaeth o wleidyddiaeth Caerdydd, De Morgannwg, Cymru ag Ewrop. Byddai peidio â gosod ymgeisydd yng Ngorllewin Caerdydd, er enghraifft, gan annog cefnogwyr y Blaid i bleidleisio i Rhodri Morgan, yn gyfraniad llawer gwell i'r ymdrech i gael gwared ar Stefan Terlezki a'i lywodreath na gwneud safiad sumbolaidd.

Byddai gwneud felly mewn nifer dethol o etholaethau, lle y gellid cael gwared ar Geidwadwyr, nid yn unig yn safiad dewr ond yn esiampl i'r Blaid Lafur. Oblegid os ydy Llafur yn ddifrifol pan ddywed mai cael gwared ar Thatcher yw'r flaenoriaeth dylai ei ymgeisydd yn Ynys Môn dynnu'i enw yn ôl yn awr - hyd yn oed os ydyw'n frawd yng nghyfraith i Neil Kinnock.

---

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Ebrill at: Shân Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn MAWRTH 20.

DIOLCH AM gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.



# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at: Lynn Jones, 30 Highfields, Llandaf, CF5 2QB. Ffon: 562816.

MAWRTH:

1 - Neuadd Dewi Sant
Cyngerdd Gŵyl Dewi
Cerddorfa Sumffoni Gymreig y BBC
Arweinydd: Owain Arwel Hughes

1 - Clwb Ifor Bach
Llwybr cyhoeddus ac eraill

1 - Sloane's Westgate Street
Salut Cymru! 8.30 - 2.00.
gyda Huw Chiswell &
Tan Tro Nesa
Mynediad £2.50
Trefnir gan Bwyllgor Adloniant S4C
Tocynnau: Elin 492118
Mari 706829.

4 - Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl
Swper Gŵyl Dewi
Gwestai: T.J.Rhys Jones

5 - Plaid Cymru, Cangen Llandaf
Ysgol Cantonian 7.30
Ann Howells: Adran y Menywod:
Bendith neu felltith?

5 - Clwb Ifor Bach
Ffenestri

5 - Cymdeithas Minny St
Cinio Gŵyl Dewi
Gwestai: Y Parch a Mrs. Meurwyn Williams

6 - Cymdeithas Gymraeg Bro Radur
Cinio Gŵyl Dewi

6 - Chapter 2
Wil Six - Paul Turner
Johnny Be Good - Marc Evans

7 - Cymrodorion Caerdydd
Cyngerdd gan Ddisgyblion Ysgol
Gyfun Gymraeg Glantaf

8 - Chapter 2
"Boy Soldiers" gan Karl Francis
Premiere ffilm ddiwedara
cyfarwyddwr disgleiria Cymru

8 - Cymdeithas y Dysgwyr
Noson Caws a Gwin
Neuadd y Sgowtiaid, Heol y Bont
Rhiwbeina. Bwyd ac adloniant.
Croeso i bawb - mynediad £2

8 - Clwb Ifor Bach
Geraint Lovgreen ar Enw Da

10 - Merched y Wawr
Rhaglen nodwedd ar Kate Roberts
gan Kathleen Wood

10 - Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd
Festri Capel Bethel, Heol Penlline
Yr Eglwys Newydd 7.30
Swper Gwyl Dewi - Gwr Gwadd:
Havard Gregory

11 - Theatr Chapter
"Pwysi o ddanadl poethion"
Cyflwyniad gan fyfyrwyr Coleg
Cerdd a Drama Cymru yn seiliedig ar
gyfiethiad Annes Gruffydd o storiau
byrion Dorothy Parker.

11 - Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl
Noson lenyddol yng ngofal Hywel
Rees

15 - Clwb Ifor Bach
Pererin Trydan

17 - Cylch Wyddonol Caerdydd
Clwb Ifor Bach 8.00
Cryfder Concrit
Dr.Ben Barr, Adran Peirianneg Sifil
Coleg y Brifysgol, Caerdydd

18 - Neuadd Dewi Sant
Noson Gymreig
Cor Poliffonig Caerdydd
Cor Sirenian
Cor Meibion Treorci

19 - Cymdeithas Minny St
Watcyn Jones

19 - Clwb Ifor Bach
John Grindell

22 - Urdd Gobaith Cymru
Eisteddfod Sir De Morgannwg
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

22 - Clwb Ifor Bach
Noson yng ngofal Cymdeithas yr
Iaith.

26 - Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro
Tomos Davies

28 - 30 Cymdeithas yr Iaith
Ysgol Basg & Ysgol Undydd i
Ddysgwyr
Merthyr Tudful.

---

EBRILL:

9 - Cymdeithas y Dysgwyr
Tŷ'r Cymry 8.00

11 - Cymrodorion Caerdydd
Festri Heol y Crwys
Noson gan Ferched y Wawr, Caerdydd
Cadeirydd y noson:
Mrs. Irene Anthony Davies

14 - Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd
Festri Capel Bethel, Heol Penlline
Yr Eglwys Newydd 7.30
Mrs. Anne Davies

14 - Cymdeithas Minny St
Noson Gymdeithasol yn ngofal
y Parchedig Eifion Powell.

30 - Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro
Heward Ricas

**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

# Owain yn arwain



PENODWYD Owain Arwel Hughes yn gyd-arweinydd Cerddorfa Philharmonia Llundain. Mae'r Philharmonia yn un o gerddorfeydd gorau Prydain a bu Owain yn cydweithio a nhw ar sawl achlysur.

Daw ei gytundeb â Cherddorfa Sumffoni Cymreig y BBC i ben ym mis Mai, ond gobaith Owain yw y bydd modd iddo barhau ei gysylltiad â'r gerddorfa.

Llongyfarchiadau calonnog iddo ar ei benodiad a phob dymuniad da ar gyfer y dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i'w frawd y Dr. Ieuan Arwel Hughes ar ei ddyrchafiad yn ddarllenydd yn Ysgol Feddygol Cymru lle mae'n baedeatrydd ymgynghorol.

## ARDDANGOSFA

YN YSTOD mis Mawrth cynhelir dwy arddangosfa bwysig yn rhif 31 Heol Siarl. Yn Oriel Andrew Knight ceir arddangosfa o waith yr arlunydd David Jones - cyfle prin i weld a phrynu darluniau gan un o'n arlunwyr mwyaf. Mae'r Ffotogallery bellach yn rhannu'r un adeilad ac o Fawrth 1 ymlaen ceir arddangosfa o waith pedwar ffotograffydd yn dwyn y teitl Prosiect y Cymoedd.

HYSBYSIAD PWYSIG!!

Bwriedir cychwyn colofn newydd ar gyfer hysbysebion bychain. Os oes gennych nwyddau i'w gwerthu, neu os oes angen rhywbeth arnoch, beth am brynu ychydig o ofod yn nhudalennau'r Dinesydd?

---

BWRDD SNWCER/TENNIS BWRDD
5' X 2.5' - fel newydd.
Peli pŵl, peli snwcer, ciws & offer tennis bwrdd.
£130 neu'r cynnig agosa.
Aberystwyth 3001

---

CARPEDI

Dau garped Oriental gwlan pur wedi'u gwneud â llaw.
Caerdydd: 654853

# YR ORIEL GELF

gan Seiriol Davies

WRTH LONGYFARCH y Dr. David Dykes ar ei ddyrchafiad i fod yn gyfarwyddwr newydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru, a dymuno'n dda iddo i'r dyfodol, mae'n rhaid dweud fod ganddo dasg anodd iawn o'i flaen cyn belled mag y mae'r Adran Gelf yn bod.

Dau beth sydd wedi cael sylw yn ddiweddar yw helynt y cartwnau a briodolir i Rubens, ac yna'r holl luniau gwerthfawr yn teithio i Siapan. Wedi dod i'r amlwg y mae'r ddau beth yma, ond y mae'n sicr fod yna lawer iawn mwy o'i le yn yr Adran Gelf.

Sawl gwaith yn ddiweddar yr wyf wedi bod yn yr Amgueddfa, yn ymweld â'r union oriel sydd ar ôl â lluniau ynddo, a minnau'r unig ymwelydd yno. Cyn gynted ag yr ymddangosaf, mae dau neu dri o warchodwyr yn fy nilyn fel pe baent yn falch o weld rhywun o'r byd y tu allan! Efallai nad yw hyn yn wir am rai ystafelloedd eraill, ond darlun yw o'r sefyllfa sydd ohoni yn yr Adran Gelf. Orielau wedi cau ac ambell ddarlun wedi diflannu o'i le heb ddim eglurhad na nodyn i'r sawl sy'n ceisio gwybodaeth. Bron fel nad yw'r staff yn disgwyl neb i holi am, a disgwyl gweld lluniau o gwbl.

Y mae'r ffreutur ar gau heb air o eglurhad nac o ymddiheuriad amlwg. Annigonol iawn yw'r siop fach hefyd. Dylid ehangu ar y nwyddau sydd ar werth, er enghraifft posteri, printiau, tryloywderau ac ati. Nid oedd hyd yn oed y cas tryloywderau yn cynnwys yr oll oedd i fod ynddo.

Ym 1960 ysgrifenodd Merfyn Levy gyfres o erthyglau dan y pennawd "Museums or Mausoleums" yn y cylchgrawn safonnol hwnnw, "The Studio". Yn un o'r erthyglau, wrth drafod yr Adran Gelf yn yr Amgueddfa Genedlaethol, bu'n feirniadol iawn ar lawer agwedd. Dywedodd fod y dulliau o arddangos y paentiadau a cherfluniau yn ddychrynllyd o ddi-ddychymyg; fod arddangosfa oedd ymlaen ar y pryd yn "ddwl a di-fywyd", ac hyd yn oed ar "lefel tra sylfaenol fod y cyflwyniadau yn ddifrifol o wael". Nid yw pethau wedi gwella fawr ddim yn ystod y cwarter canrif a aeth heibio.

Breuddwydiwn am weld Oriel Gelf Genedlaethol yn cael ei sefydlu. Yn Nulyn ceir Oriel Genedlaethol yr Iwerddon, tra yng Nghaeredin y mae gan yr Alban dair oriel, sef Oriel Genedlaethol Celfyddyd Modern, Oriel Genedlaethol yr Alban, ac Oriel Portreadau Cenedlaethol. Dim ond yn y modd yma gall yr adnoddau gael eu canolbwyntio er lles.

Ond beth am yr amser sydd ohoni? Pa gynlluniau sydd ar gael yn y cyfamser tra bydd y lluniau yn Siapan? Dylid peidio gadael i'r orielau a'r muriau yn wag yn hir iawn, ond gweithredu yn sydyn i ddethol gweithiau o werth, ar themau arbennig efallai, a'u dangos gyda digon o hysbysrwydd ymlaen llaw. Dylid creu arddangosfeydd bywiog a deniadol a chyhoeddi hynny i'r byd ar led. Dywed un swyddog fod digonedd o luniau heb weld golau dydd bron.

A beth am bolisi marchnata bywiog? Rhaid cael peth o agwedd y byd busnes os am ddenu'r ymwelwyr, a rhaid gwella ar y dulliau o werthu ac yn y dewis o nwyyddau. Gwariwyd gormod o arian ac amser ar weithgareddau sydd heb fod unrhyw werth i'r rhai sydd yn defnyddio'r cyfleusterau ac mewn gwir angen ohonynt.

Efallai y cymer flynyddoedd lawer cyn i'r Adran yma o'r Amgueddfa eto ennyn edmygedd a pharch drwy'r byd, ond dyna mae'n siwr fydd un nod gan y cyfarwyddwr newydd. Ein gobaith yw y gall Dr.Dykes roi trefn ar y lle'n fuan iawn, ac y gwelwn newydd wedd cyn bo hir. Rhwydd hynt iddo.

# BWTH RUTH



WEL HELO, a pa hwyl sydd? "Newyddion da a ddaeth i'n bro"!! Mae yna nifer ohonoch chi drigolion Caerdydd sydd a'ch gwreiddiau'n ddyfn yn ardal yr Afon Teifi ag i chi mae misoedd y gwanwyn yn golygu rhywbeth amgenach na prysurdeb wyna - Mae'n dymor pysgota eog!

Ydi'r pysgod yn teithio yr holl ffordd o Byllau Teifi uwchben Tregaron y dyddiau hyn i lawr heibio Llandysul ag Aberteifi i'r mor rhwng mis Chwefror a mis Awst gan roi pleser pur i laweroedd o bysgotwyr, ynteu cael eu magu ar fferm mewn tanciau ag yna cael eu cario i lecyn ar lan yr afon a'u tywallt i'r afon mewn man hwylus?

Erbyn hyn fe wyddom fod yna obaith i ninnau bysgota eog mewn rhyw ddwy flynedd ar lannau'r Afon Taf gan fod Awdurdod Dwr Cymru newydd ollwng 4,700 o bysgod i'r afon. Anelu am y mor mae nhw rwan ond mae 'na obeithion mawr y bydd yna 250 yn nofio'n ôl i'r Afon Taf mewn amser - ag os ydi hanner y rheiny yn rai benywaidd mae gobaith am filiwn o wyau, yna o fewn 4-8 mlynedd fe fydd yna bysgodfeydd ar lan Afon Taf - ag eogiaid mor bell i fyny'r afon a Merthyr!

A minnai'n byw mewn gobaith am eog pinc braf o'r Afon Taf mi rydwi am rannu riset hefo chi o lyfr hwyliog y cogydd welwyd mewn cyfres yn ddiweddar. Keith Floyd o'r gyfres 'Floyd on Fish'.

Riset o Sgandinafia sy'n rhoi cyfle i ni flasu eog wedi'i gochi - ag mae'n bwydo mwy o bobl na stecs eog!

Gravlax
(Mae'n cymryd 3-4 diwrnod i ddigoni)
Darn o eog 2-3 phwys (wedi tynnu'r asgwrn cefn a thorri'r pen a'r cynffon i ffwrdd)
4 llwy fwrdd o halen mor
llond llaw o lysiau'r gwewyr!! (dill)
2 lwy bwrdd o siwgwr caster
2 lwy bwrdd o bupur du
Rhowch un hanner o'r pysgodyn a'r croen ar i lawr mewn dysgl tcheini (dim un metal).


Cymysgwch y cynhwysion eraill yn dda a'u rhoi ar yr hanner pysgodyn yna rhowch yr hanner arall ar ei ben - croen yn ucha.

Rhowch bwysau ar y pysgodyn. (Bricsen wedi ei lapio mewn foil ddefnyddiais i !)

Rhowch yn y cwpwrdd oer am 3-4 diwrnod. trowch y darnau pysgod bob 12 awr gan dywallt y sudd tywyll ddaw ohonno drosto droeon.

Mae'n bryd talu ymweliad a fy ffrindiau yn Sir Aberteifi!! - Hwyl!


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367



# LLYTHYRAU

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Swyddfa Rhanbarth Morgannwg-Gwent
11 Stryd Lochaber
Y Rhath

Annwyl Dinesydd
Mae Cell Caerdydd o Gymdeithas yr Iaith yn cynnal ymgyrch o hyn i'r Pasg. Mae'r aelodau yn casglu ôl-rifynnau o gylchgronnau Cymraeg, ac yn bwriadu eu dosbarthu i gymaint ag sydd modd o Ystafelloedd Aros yng Nghaerdydd a'r cylch - ystafelloedd aros meddygon, deintyddion, ysbytai a chlinigau.
Rydym hefyd yn casglu llyfrau CYmraeg ail-law i'w cyflwyno'n rhodd i lyfrgelloedd yr Ysbytai, yn arbennig llyfrau ar gyfer Uned y Plant yn Ysbyty Prifysgol Cymru.
Tybed a oes rhai o'ch darllenwyr a garai gefnogi'r ymgyrch hon? Gellir gwneud hynny trwy gysylltu â ni yn y cyfeiriad uchod. Byddem yn falch o dderbyn unrhyw gylchgronnau, llyfrau, neu gyfraniadau ariannol.
Yr eiddoch yn gywir,
Gill Stephen & Arfon Jones
(ar ran Cell Caerdydd).

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD**

54 Heol Erwin
Caerdydd
CF4 6QR

Annwyl Dinesydd
Mae'n flin gennyf ddweud fod 'na gamgymeriad wedi bod yng Nghalendr y Dinesydd, rhifyn mis Chwefror, parthed rhaglen Cymdeithas y Dysgwyr.
Ni fydd cyfarfod yn y Tŷ ar 12 Mawrth; yn hytrach, rydym yn cynnal Noson Caws a Gwin ar 6 Mawrth yn Neuadd y Sgowtiaid, Heol y Bont, Rhiwbeina. Byddaf yn hynod o falch petaech yn gallu cywiro'r rhestr yn rhifyn mis Mawrth. Ymddiheuriadau am y camddealltwriaeth.
Gyda llaw mae croeso mawr i'r Cymry Cymraeg ymuno â'r dysgwyr ar y noson; pris y tocynnau ydy £2, gan gynnwys bwyd ac adloniant.
Yr eiddoch yn gywir,
Paul Jeffries
Cadeirydd,
Cymdeithas y Dysgwyr.

## Cydymdeimlo

Tristwch oedd clywed am farwolaeth Mrs. Blodwen Jenkins, Y Barri, a fu farw ar Chwefror 12. Roedd yn un o arloeswyr addysg Gymraeg yn y Barri ac un o sefydlwyr Ysgol Gymraeg gynta'r Barri yn festri capel Cadoxton ym 1951. Cydymdeimlwn â'i merch, Mrs. Heulwen Davies, sy'n athrawes Astudiaethau Busnes, yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, a gweddill y teulu.

Annwyl Dinesydd
Mae'r rhaglen Bilidowcar sydd i'w gweld ar S4C am 17.00 bob pnawn Mercher wedi lansio cystadleuaeth Popdri eto eleni.
Y llynedd penderfynwyd cynnal y gystadleuaeth er mwyn hybu grwpiau ifanc a gwerthiant recordiau sengl yng Nghymru, ac fe fu'r ymateb yn wych. Gwelwyd dros ddeugain o grwpiau yn unigol yn eu gwahanol ardaloedd.
Felly os oes yna grŵp nad ydynt wedi cyhoeddi record na chaset a bod ganddynt gan wreiddiol, beth am gystadlu?
Gyrrwch am ffurflen gais i:
Bilidowcar
BBC
Llandaf
Caerdydd
Cf5 2YQ
Diolch yn fawr am y gofod hwn yn eich papur bro, a gobeithio y bydd y gystadleuaeth mor boblogaidd ag un y llynedd - a'r grŵp buddugol o'ch bro chi!
Yr eiddoch yn gywir,
Angharad, Emyr ac Ynyr.

DYWEDDIO:
Llongyfarchiadau i Ceirios Lewis, Yr Eglwys Newydd, a Lloyd Best, Guildford, ar eu dyweddiad. Mae Ceirios yn ferch i Glyn a Joan Lewis, Pantbach Avenue.

FFARWEL:
Cyhoeddodd Arglwydd Faer Caerdydd, Norman Lloyd Edwards, na fydd yn sefyll yn yr etholiad nesaf am Gyngor y Ddinas ym mis Mai. Bu Mr.Edwards, sy'n 52 mlwydd oed, yn cynrychioli ward y Rhath ers 1963. ei fwriad nawr yw canolbwytio ar ei waith fel cyfreithiwr.

Gwahoddiad i bobl ifanc ddod i HTV i weld grwpiau cyfoes Cymru yn perfformio

CYSYLLTWCH Â NI AM RAGOR O FANYLION

HTV CYMRU

SWYDDFA CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS
HTV CYMRU
Y GANOLFAN DELEDU
CROES CWRLWYS
CAERDYDD CF5 6XJ

Ffôn Caerdydd 0222 590241 neu 590243

# Colofn Shân Emlyn



MAE 'NA haerllugrwydd yn perthyn i unrhywun sy'n mynd ati i ddatgelu'i hun ar bapur, petae ond am bod y weithred ynddi'i hun yn rhagdybio y bydd y cynnyrch o ddiddordeb i'r darllenydd. Mae'r haerllugrwydd yn saith gwaeth pan nad oes gan rywun rhywbeth i'w ddweud - ac felly y mae hi arna' i y mis yma!

Ro'n i wedi bwriadu sôn wrtha chi am groesffordd go boenus ddaeth i'm rhan fis dwytha - ond mi rydw i wedi cael gymaint o garedigrwydd a thendans gan fy nheulu a'm ffrindiau fel 'y mod i'n teimlo'n wylaidd ac yn euog fy mod i wedi cael y fath sylw. Gwyleidd-dra pai hi - ac felly mi gadwa'i fy nheimlada a'm hargraffiada i mi fy hun. Dim ond diolch o galon i bawb am wneud cyrraedd degawd newydd yn achlysur mor bleserus.

Wedi profiada'r mis dwytha mae 'na berygl inni fod yn annioddefol o hunan-foddhaus - ond un o ogoniannau bywyd teulu ydy bod y rhai agosa atom ni yn gallu bod yn gignoeth onest ac yn llwyddo i sodro rhywun yn solat yn 'i le. Ymateb rhywbeth yn debyg i hyn. Yn ddiweddar mi geisias dynnu sylw un o'r merched 'cw at rinweddau gwyleidd-dra gan 'i chyhuddo o fod ar delerau go dda efo hi'i hun - a'r ateb a gefais "Wel, Mam, fel y byddwch chi'n deud 'Fel y fam y bydd y ferch!'" Aw!

Dro arall, yr un ferch eto "Mam, 'dach chi'n real nag". "Wel", medd finna, "dyna ydy ngwaith i", ac medda hitha "Wel, os ga'i ddweud, mi ryda chi'n gneud eich job yn ardderchog!"

Rwyf yn mynd ati i lunio'r golofn (anobeithiol ydy hi hefyd y mis yma) tra'n bwrw'r Sul ar fy mhen fy hun, Owen yn Nulyn a'r genod yn gweithio oddi cartra. Beth olyga hyn? Grwndi Y GATH - mae'r gofal i gyd arna' i - y bwydo a'r carthu. Yn anffodus fe ddeffrois fore Sadwrn efo coblyn o anwyd - tishan a thishan a 'nhrwyn i'n fflamgoch. Anwydus ddwedais i - wel nage - yna i chi ragluniaeth ac amseriad perffaith. Diolch i'r anwyd 'gallwn i ogleuo dim - ar y bocs carthion, na'r cig drewllyd 'na ddaw yn nhuniau bwyd cathod. Fel byddai fy mam yn deud, "Fe gofia Duw am y dryw yn y drain!"

Wel am rwtsh ynte - oes 'na rywun o'r darllenwyr fyddai'n hoffi cael y golofn hon?


COLEG Y BRIFYSGOL, CAERDYDD
YR UNED YMCHWIL IEITHYDDOL GYMRAEG

Cwrs M.A./ Diploma Prifysgol mewn Astudiaethau Cymraeg
yn dechrau Hydref 1986.
Llawn-amser (blwyddyn)
a rhan-amser (dwy flynedd).
Cwrs o ddiddordeb neilltuol
i bobl mewn swydd
(yn arbennig athrawon)
a myfyrwyr gradd
sy'n ymddiddori yn yr iaith
o safbwynt ieithyddol, tafodieithol
a chymdeithasegol.

Manylion pellach oddiwrth:
Yr Uned Ymchwil Ieithyddol Gymraeg
18 North Road,
Caerdydd, CF1 3DY.
Tel: (0222) 44211. Est. 2573.


# Mynd i weld y byd



AR 30 MAWRTH teledir ffilm ar S4C sy'n dwyn y teitl "Clymau". Cynhyrchydd y ffilm yw Gareth Rowlands, a ffilm ydy hi o bryddest fuddugol Eluned Phillips yn Eisteddfod Genedlaethol Llangefni 1983. Pryddest sy'n ymdrin â phwnc sensitif helynt y Malfinas ac yn adlewyrchu ymateb llawer o Gymry Cymraeg i'r alanas.

Mae'r ffilm yn agor efo golygfa o deulu Pant Glas yn pacio'u heiddo, yn gadael yr hen gartref am Lerpwl i hwylio ar y Mimosa:

"O'r niwlen daeth son mudo ym Mhant Glas
a llef gwraig yn wylo.
Yna mudandod cofio -
a llidiart ffald o dan glo."

Dilynwn y teulu bach dros y cefnfor gan ymdeimlo â'u gwewyr a'u dioddefaint:

"Colli merch yn eu cyni
rhoi eurwallt i erwau'r lli
a'r mor yn cau amdani."

Gwelwn hwy'n ymgodymu â thir anhydrin y paith. Ond bob yn hyn a hyn ceir tro sydyn yn yr olygfa. Gwelwn filwr ifanc yn ymarfer ar Fannau Brycheiniog, milwr ifanc wedi ymuno â'r fyddin "i weld y byd". Gwelwn ef yn araf gael ei ddadrithio wrth iddo sylweddoli'r gwahaniaeth rhwng ymarfer a lladd ei gyd-ddyn, gwelwn yr arswyd ddaw drosto wrth iddo ddirnad beth yw rhyfel o ddifri'.

Yn brithio'r ffilm mae pytiau o fwletinau newyddion y cyfnod, a chariad y milwr ifanc yn gwrando a gwylio'n syn. Golygfa sy'n pwysleisio pa mor hawdd yw cynefino â newyddion drwg yng nghysur y gadair freichiau. Er pob trychineb a bywyd y mwyafrif yn ei flaen fel arfer. Golygfa ysgytwol y ffilm yw pan fo'r milwr clwyfedig o Gymru yn gorwedd wrth ochr milwr clwyfedig o'r Andes mewn sied yn San Carlos. Y Gymraeg oedd eu hunig fodd i gyfathrebu er bod honno bron yn angof ar wefusau'r milwr o Gwm Hyfryd.

"Erys yn waddol ar fin
eiriau bach, cyfrin eu rhin
yn frawddegau anhydrin.
Unfraich y cyfarch y dall
a chytgord, er camddeall
rhwng dwy genedl anghall."

Gwell peidio a datgelu mwy. Mynnwch wylio'r ffilm, credaf y bydd cryn drafod ar ei chynnwys.

# TECELA

gan Meurwyn Williams

GYRRU AR hyd ffordd wledig, dim cloddiau na gwrychoedd, caeau corn yn felyn ar bob llaw, ac yn sydyn ar dwr cadw un o'r ffermydd, yr enw Bryn Du. Dim yn rhyfedd yn hynny medde chi. Dim o gwbwl ond mai yn Van Wert.County yn nhalaith Ohio y digwyddodd y peth.

Yn swydd Van Wert hefyd y mae tref fechan Gomer, ac o fewn ychydig filltiroedd iddi mae pentref Venedocia. Er mai swydd Van Wert yw'r enw, mae'r ardal yn hen ardal Gymreig yn nhalaith Ohio. Daeth Pobol o Faldwyn i ffermio i'r ardal, a dwyn enwau eu hen gartrefi gyda nhw - ac felly y cafwyd enwau fel Bryn Du a Tŷ Glas ac ati.

Ond erbyn heddiw, does dim llawer o ymwybyddiaeth o Gymreictod yn yr ardal. Yn naturiol felly! Ond pam na ddylai fod? Ewch i Mennesota ac mae'r traddodiadau Llychlynaidd yn dal yn fyw. Ewch i Michigan, ac fe allech dyngu eich bod yng ngwlad Pwyl mewn mannau. Yn Chicago a New York mae nhw'n paentio'r strydoedd yn wyrdd ar ddydd Gwyl Sant Padrig, ac mae YN fantais gallu siarad Eidaleg mae'n debyg er mwyn "dod ymlaen yn y byd". Ond y Cymry!

Y tu allan i bentref Venedocia mae anferth o gapel, hardd iawn. Salem yw'r enw, ac mae arysgrifen uwchben y drws a'i gerfiadau hardd sy'n cyhoeddi iddo gael ei godi'r pryd a'r pryd. A'r cyfan yn y Gymraeg. Y tu mewn fe welwch ffenestri lliw hardd, Cenhinen Pedr fan hyn a fanco yn y gwydr, a Gweddi'r Arglwydd, yn y Gymraeg yn rhan o wead y ffenest. Allan yn y fynwent sydd yn gysylltiedig â'r capel mae cerrig bedd a'r cerfiadau arnynt yn y Gymraeg:

Cofia ddyn dewrwych - cyn d'orwedd
Am fodd i faddau d'anwiredd
Tro i guro am drugaredd
Yn dy fyw, cyn dy fedd.

Ac mae na grud yn mynd lawr cefn dyn wrth gerdded yn y fynwent ac agor drws y capel.

Ond erbyn hyn ar garreg fedd ac mewn ffenest liw yn unig y gwelir y Gymraeg yn Venedocia, a does neb yn y ffermydd sy'n siarad yr un gair o'r iaith. Americaneiddiwyd y cyfan, a dyw penderfyniad y Llychlynwyr a'r Gwyddelod a'r Eidalwyr ddim yn curo yng nghwythiennau'r Cymry rhywsut - yn America o leiaf.

Cyfnod yw Gŵyl Dewi i wneud yn siwr fod yr ymwybyddiaeth yn para ynom ni - rhag cywilyddio'r tadau.

# UN DYDD AR Y TRO

DIWRNOD CENEDLAETHOL DIM YSMYGU 1898

Dr. Don Anderson, Arbenigwr mewn Meddygaeth Gymunedol, Awdurdod Iechyd De Morgannwg.

BETH FYDDWCH chi'n gwneud ar Fawrth y deuddegfed? Mynd i'r swyddfa? Glanhau'r tŷ? Gwylio'r teledu? Tanio sigaret arall?

Ond arhoswch funud! Clustnodwyd dydd Mercher 12 Mawrth yn ddiwrnod cenedlaethol dim ysmygu. Ceir diwrnod tebyg bob blwyddyn pan annogir smygwyr i roi'r gorau iddi am bedair awr ar hugain i weld os gallant ymdopi heb sigaret. Mae'n brawf ar hunan-ddisgyblaeth ac ymataliaeth sy'n gwbl addas ar gyfer diwrnod yng nghanol y Grawys.

Mae'n gyfle hefyd i ganolbwyntio'n sylw ar effeithiau niweideiol ysmygu. Gall ystadegau beri diflastod, ond maent yn gallu'n hatgoffa o'r holl ddioddef dianghenraid yr ydym yn ei bentyru arnom ein hunain trwy smygu.

Bob dydd o'r flwyddyn mae'n rhaid i ysbytai De Morgannwg ddarparu 33 o welyau ar gost o £877,500 y flwyddyn, i gleifion sy'n dioddef o effeithiau smygu. Mae clefyd y Galon, Cancr yr Ysgyfaint, Bronchitis, ac Emphysema i gyd yn fwy cyfarwydd i ysmygwyr. Mae'r gost i gymdeithas oherwydd y diwrnodau gwaith a gollir yn anhygoel, heb sôn am y holl bryder a thristwch unigol a theuluol a ddaw yn eu sgil.

Ym mhle yng Nghaerdydd yr ydych chi'n byw? Os ydych yn byw yn etholaeth Ian Grist A.S., Canol Caerdydd, efallai y dylech gofio i 67 o ddynion a 36 o fenywod yn eich ardal farw o afiechydon sy'n gysylltiedig ag ysmygu. Yng Ngogledd Caerdydd y ffigwr cymharol yw 80 o ddynion a 31 o fenywod, tra yn etholaeth Jim Callaghan A.S., De Caerdydd a Phenarth mae 90 o ddynion a 39 o fenywod yn dychwelyd i'r llwch o flaen eu hamser. Dyw Gorllewin Caerdydd ddim yn lloches ychwaith - 87 o ddynion, 44 o fenywod. Ble bynnag yr ydych yn byw, ydy e'n bosibl y gallech chi fod yn un o'r ystadegau y flwyddyn nesaf?

Mae rhoi'r gorau i ysmygu am ddiwrnod ar 12 Mawrth yn ddim amgen na gweithred sumbolaidd i gnoi cil arno. Byddai'r amheuwyr yn dweud "Beth yw'r pwynt mewn rhoi'r gorau am ddiwrnod yn unig? Byddwch wrthi unwaith yn rhagor yfory." Wedi'r cyfan dyw achlysur blynyddol y Nadolig ddim yn arwain at gynnydd parhaol yn nifer y sawl sy'n mynychu'n capeli a'n heglwysi, ond mae'n gyfle i oedi a meddwl. Ac i rai fe allai fod yn ddiwrnod cyntaf bywyd newydd.

RHOWCH
Y GORAU
I SMYGU
UN DYDD
AR Y TRO

DYDD MERCHER
12
MAWRTH

DIWRNOD CENEDLAETHOL DIM SMYGU 1986



## Gŵyl Etifeddiaeth De Cymru

AR FAWRTH 22 & 23 bydd Ymddiriedolaeth Amgueddfa Torfaen yn cynnal "Gŵyl Etifeddiaeth De Cymru" ym Mharc Pontypŵl. Mae nifer o weithgareddau a digwyddiadau sy'n ymwneud â thema etifeddiaeth yn cael eu paratoi ar gyfer y penwythnos; er enghraifft, teithiau cerdded o gwmpas ardal Pontypŵl, bydd ffilmiau fideo yn cael eu dangos yn y "Valley Inheritance" Pontypŵl, ac ar nos Sadwrn 22 Mawrth bydd twmpath dawns yng ngofal y grŵp Ceilidh "Juice o Barley".

Un o brif ddigwyddiadau'r penwythnos fydd y Basar Etifeddiaeth, i'w chynnal ar ddydd Sul 23 Mawrth, yn Ysgol Gyfun St.Albans (Parc Pontypŵl). Bydd yn cynnwys amryw o arddangosfeydd yn canolbwyntio ar lefydd i'w gweld yn ystod yr had dilynol, aelodaeth o gymdeithasau etifeddiaeth a chrefftwyr; bydd hen geir yn cael eu harddangos ac yn ystod y prynhawn bydd arddangosfa hebogyddiaeth gan gynrychiolwyr o Glwb Hebogyddiaeth Cymru.

"Rydym yn gobeithio y bydd yr ŵyl yn canolbwyntio'r sylw ar yr amrywiaeth sylweddol o bethau y gall pobl eu gwneud a'u mwynhau yn ystod yr haf dilynol, gan eu hatgoffa o'r cyfraniad y mae'r etifeddiaeth cyfoethog yn Ne Cymru yn ei wneud i fywyd yr ardal heddiw", meddai Sian Evans, sy'n trefnu'r ŵyl.

Am ragor o fanylion am rai o'r digwyddiadau hyn cysyllter a:

Sian Evans, Torfaen Museum Trust, Park Buildings, Pontypŵl, Gwent, NP4 6JH.
Ffôn: (04955) 52036

COLEG PRIFYSGOL CYMRU
ABERYSTWYTH

GRADDAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG
I FYFYRWYR ALLANOL

Mae'r Coleg yn cynnig cynllun gradd BA Prifysgol Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr allanol, a gwahoddir ceisiadau am le o fewn y cynllun yn Hydref 1986. Bydd myfyrwyr allanol yn dilyn cyrsiau yn y pynciau a ganlyn:

RHAN 1 Tri phwnc o blith ADDYSG, ASTUDIAETHAU CREFYDD, CYMRAEG, DRAMA (ASTUDIAETHAU THEATR), HANES CYMRU, LLYDAWEG, CERDDORIAETH

RHAN 2 Anrhydedd Sengl mewn CYMRAEG
neu
Anrhydedd Cyfun mewn dau o'r canlynol:
ADDYSG, CYMRAEG, DRAMA, HANES CYMRU, CERDDORIAETH

Cynigir cynhorthwy arbennig i fyfyrwyr allanol drwy ohebiaeth a chyswllt personol rheolaidd. Darperir nodiadau a chanllawiau manwl ar y cyrsiau, ynghyd â darlithiau ar gaset mewn rhai pynciau.

Astudir Rhan 1 dros 1-3 blwyddyn yn ôl dewis y myfyriwr. Bydd Rhan 2 yn estyn dros 4 blynedd fel arfer.

Gellir cael manylion am y cynllun a ffurflenni ymgeisio oddi wrth Hywel W Jones, Uwch-Ysgrifennydd Cynorthwyol, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Gwahoddir ceisiadau erbyn 18 Ebrill 1986.


# EWCH AR 'I HÔL HI!

AGORWYD Ffordd Curiad Calon Caerdydd ym Mharc Bute yn swyddogol ar 25 Medi 1985 gan Ddirprwy Gadeirydd Pwyllgor Hamdden ac Amwynderau Cyngor Dinas Caerdydd, y Cynghorydd Beti Jones, a Llywydd Plaid Cymru, Dafydd Elis Thomas, Aelod Seneddol Meirionydd-Nant Conwy.

Noddwyd y cynllun gan Gyngor y Ddinas a Churiad Calon Cymru ac fe'i noddwyd gan gonsortiwm cynhyrchu cig oen yr amaethwyr, Antur Wyn Cymru. Yr amcan yw annog pobl i ymarfer yn rheolaidd a thrwy hynny gadw'n heini ac yn iach.

Mae'r ffordd, sy'n filltir o hyd, yn cychwyn ger cefn y Castell nid nepell o feini'r orsedd, ac yn arwain o gwmpas un o barciau harddaf y Brifddinas. Rhwng pob un o'r wyth o fannau ymarfer mae'r sawl sy'n dilyn y ffordd yn rhedeg ar lan yr afon Taf, heibio i erddi blodau Parc Bute, a nifer o goed a phrysgwydd amryliw ac ar hyd yr afonig artiffisial a arferai gyflenwi'r dociau. Ar ddiwrnod braf, ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, mae'n werth yr ymdrech, pe'n unig i fwynhau'r olygfa.

Enwir yr wyth orsaf ymarfer ar ol siroedd Cymru ac maent yn galluogi'r rhedwr i ymarfer nid yn unig y coesau, y galon a'r ysgyfaint ond cyhyrau'r breichiau, y stumog, yr ysgwyddau a bron i bob cyhyr arall yn y corff!




Mae Dafydd Elis Thomas, sy'n ymweld â swyddfa Plaid Cymru yn Ffordd yr Eglwys Gadeiriol yn rheolaidd yn rhinwedd ei swydd fel Llywydd Plaid Cymru, yn lonciwr ymroddedig. Mae'n hoff o ymarfer lle bynnag y bo, boed hynny ar strydoedd prysur Llundain, campfa Ty'r Cyffredin, neu fynyddoedd hardd ei etholaeth. Nawr pan ddaw i'r Brifddinas mae'n defnyddio Ffordd Curiad Calon Caerdydd. Ar gais y Dinesydd, fe gododd yn fore i ddangos i'r gwangalon sut mae ei gwneud hi.



Troed chwith, dde, chwith, chwith chwith, chwith, chwith.......



Mae hyd yn oed yr arweinydd yn gorfod gwyro chydig weithiau.



Rhaid codi cwestiwn ynglyn a'r gwasanaeth rheilffyrdd yma i'Stiniog.



Ble mae'r papur gwyrdd yna ar garthffosiaeth wedi mynd?



Tybed fydd hyn yn codi safle'r Blaid?




Pwy ddywedodd fod yna ddim perygl ymbelydredd yn Nhrawsfy....

# LLYFRAU

SEREN GAETH
Marion Eames. Gwasg Gomer 202tt. £6.95

DAU BERSON, dwy yrfa. Merch ifanc o berfeddion Meirionydd sy'n efrydydd mewn Coleg Cerdd yn Llundain yw hi. Cymro yw yntau, ond un dinesig ei fagwraeth a soffistigedig ei fryd a'i foes ydyw, ac anghredadun dilornus o'i hofergoel gapelgar hithau.

Pan yw'r ddau yn priodi mewn Cofrestrfa yn Llundain y mae hi ar fedr profi ei dawn gyfansoddi fawr ac mae ganddo ef hefyd freuddwyd am esgyn o fwrllwch darlithfa prifysgol i sylw gwlad yn gyflwynydd cyfres deledu lenyddol. Yn wir, o fewn tridiau i'r briodas mae ef yn cychwyn ar daith ffilmio dramor gan ei gadael hi i brofi poen a gorfoledd y cyngerdd allweddol hwnnw yn Neuadd Wigmore hebddo.

Er cryfed yw cwlwm y cnawd, nid oes i'r briodas hon gyd-ddyheu oblegid y mae'r gŵr, sy'n hyn o ddeunaw mlynedd na'i briod, am dylunio ei chymeriad a'i phersonoliaeth yn ôl ei ddelfryd, ac ni chais hi ond ymostwg i'w driniaeth. Pygmalion Frenin yw ef, Galatea hithau; neu o ddwyn cymhariaeth fwy diweddar, Ernest Jones a Morfydd Llwyn Owen ydynt. Ni ellir peidio â chlywed adlais o'r garwriath ystormus ddwys honno ym mherthynas y ddeuddyn hyn. Fodd bynnag nid 1918 ydyw ond 1956. Bu'r bwystfil ar gerdded eto dros feysydd Ewrop adeil creithiau ei grafangau yn goch ar fywydau cyfeillion y wraig ifanc yn Llundain, a chyfyd drychiolaethau gorffennol bywyd y gwr o'r miasma hefyd.

Nid yw seiliau'r bywyd cysurus Cymreig ym Meirion yn ddiysgog mwyach ychwaith. Mae craciau ym mur y capel, mae cysgidion ar yr aelwyd. Er hynny, ar un o fryniau Meirion dirion, pan gilia yno maes o law, y daw heibio i'r wraig ifanc gythryblus y "tawel ostegwr helbul hunan" hwnnw, ac yno hefyd y daw ymwared ac y profir cymodi.

Ni ddywedaf fwy, ond rwy'n gobeithio imi awgrymu peth o'r cyffro emosiynol a deimlir yn y nofel newydd hon o law Marion Eames. Fe'n swynwyd o'r blaen gan hanes y Crynwyr unplyg rheini ym Meirion a Phensylvannia a chan gronicl brwydr byw y Cymry ar lannau Afon Mersi gynt, ac fe'n cyfareddir eto gan y stori ddiweddaraf hon.

Digwyddais ei ddarllen ar ôl pori yn rhifyn Ionawr o'r "Traethodydd", rhifyn cyfoethog iawn a neilltuwyd i drafod lle'r ferch yn ein llen, ac rwy'n ymswyno o'r herwydd rhag tramgwyddo wrth lunio barn ar waith nofelydd o fenyw gan drin y gwaith hwnnw yn wahanol i gynnig unrhyw nofelydd. Eto mae'n rhaid imi ofyn a lwyddasai unrhyw ddyn i fynd dan groen yr arwres hon yn ei gwewyr gystal. Ac wrth ofyn hynny mae'n deg holi a yw Marion Eames yn argyhoeddi gyda'i phortread o'r gŵr yntau. Bum yn petruso peth uwchben hwn gan amau a geffid creadur mor hunan-hyderus, hunan-feddiannol wedi'r clwyf dwfn a adawodd ei wraig gyntaf arno, ond cefais, wrth i'r hanes ddatblygu, mai pryder ofer oedd a bod y cyfarwydd wedi llwyddo unwaith eto yn gampus.

T.A.W.

# BRAS-ODLAU

gan EMYR LEWIS

DIGWYDDIADAU llenyddol pwysica'r mis yma yng Nghaerdydd oedd cyhoeddi cyfrol ddiweddaraf Gilbert Ruddock "Hyn o lachawdwriaeth". Yn anffodus doedd dim amser i wneud cyfiawnder a'r gyfrol cyn i'r rhifyn hwn fynd i'r wasg. Ceir adolygiad llawn y mis nesaf.

Digwyddiad llai pwysig o lawer ym mywyd barddonol y Brifddinas oedd cystadleuaeth flynyddol y limrig yn noson gawl y Dinesydd a gynhaliwyd yn Neuadd Brigad Trowsus Byrion Baden-Powell yn Rhiwbeina. Cafwyd nifer o gynigion teilwng, rhai annheilwng ac un neu ddau echrydus. Dyma, fodd bynnag, ddetholiad o'r cynigion. Cei di, ddarllennydd mwyn, bwyso a mesur i ba ddosbarth y perthyn bob un. Y dasg oedd ateb y llinell: "Tri pheth sy'n creu gwynt tra effeithiol".

Tri pheth sy'n creu gwynt tra effeithiol
Hofrennydd Westland a gem ffwtbol
  Ond gwylied y sawl
  Fwytaodd o gawl
Y Dinesydd, myn diawl, mae'n ysgubol.

Tri pheth sy'n creu gwynt tra effeithiol
Sy' gynddrwg a dim wnaeth y Diafol
  Yw Maggie rhif deg
  A Brittan a'i geg
A Heseltine wyllt hofrenyddol.

Tri pheth sy'n creu gwynt tra effeithiol
Cynnwrf hofrennydd ceidwadol
  Rhwng ddyfal ymgomio
  Reagan yn bomio
A mint a thwll yn ei ganol

Tri pheth sy'n creu gwynt tra effeithiol
A hynny yn rymus iachusol
  Dau dun o becd bins
  A rhwyg yn eich jins
Ar bwys eich twll tin sy'n aruthrol.

Tri pheth sy'n creu gwynt tra effeithiol
'Does diben i neb fynd i 'morol
  A gofyn pa dri
  Disgwylir i ni
Eu henwi mewn tan mor uffernol.

A'r homili uniongred olaf yma aeth a'r wobr.


Yn darllen ei barddoniaeth ar y noson hefyd oedd Menna Elfyn. Mae hi newydd gyhoeddi ei chyfrol ddiweddaraf "Mynd Lawr i'r Nefoedd". Mae sawl adolygiad o'r gyfrol wedi ymddangos yn ddiweddar - gan gynnwys un gan Gwynneth Lewis yn y rhifyn diwethaf o'r Dinesydd - ac nid fy mwriad yw ychwanegu un arall atynt, dim ond annog darllenwyr y Dinesydd i gael gafael ar gopi os medrant. Mae hi'n gyfrol rymus, yn cyfuno tynerwch ffyrnig dros deulu gyda chymuned a phryder huawdl ynglyn a'r ffactorau hynny sy'n eu difa. Yn y gerdd "Llwyth o lo" mae'n sôn am y glo "compo" a dderbyniai ei Mamgu wedi lladd ei Thadcu mewn damwain o dan ddaear. Mae'n diriaethu galar ei Mamgu yn y modd mwyaf trawiadol, gan gysylltu'r trasiedi personol hwnnw gyda thrasiedi'r modd y chwalwyd y diwydiant glo yn ein cymunedau gan adael dim yn ei le: "glo rhad i ni yw galar." 'Does dim ateb i hyn'na.

Emyr Lewis.


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530


# Cydymaith

Cydymaith i Bob Cartref: Sut yn y byd y byddem yn gallu dod i ben hebddo?

DDIWEDD MIS Chwefror lansiwyd y cyfeirlyfr pwysicaf i'w gyhoeddi yng Nghymru y ganrif hon, llyfr y dylai fod ar aelwyd pob Cymro a Chymraes ddiwylliedig. Bydd y llyfr hwn yn gydymaith ddi-ffael i gyfoeth o lenyddiaeth Gymraeg ac Eingl-Gymreig o'r cyfnod cynharaf hyd heddiw, hanes ein gwlad a phob math o bynciau eraill ac iddynt gysylltiadau llenyddol, digwyddiadau, Cymry enwog, llen gwerin a llawer mwy.

Llyfr pwysig yw hwn a fydd yn diwallu angen mawr yn yr astudiaeth o hanes a llenyddiaeth Cymru. Fel y dywed y Dr.R. Geraint Gruffydd, Cyfarwyddwr Canolfan Uwch Efrydiau Cymraeg a Cheltaidd:

"Bydd y Cydymaith yn sicr yn llyfr cyfeirio cwbl anhepgor, ac yn cymryd ei le gyda'r Bywgraffiadur ar silffoedd pob Cymro a Chymraes sy'n ymddiddori yn hanes a diwylliant Cymru. Fe fydd yn cynnwys gwybodaeth awdurdodol a chryno ... ac ymhen ychydig iawn o amser fe fyddwn yn gofyn i ni'n hunain sut yn y byd y byddem yn gallu dod i ben hebddo. Dyna nod angen y llyfr cyfeirio safonol, ac yn sicr y mae'r Cydymaith yn perthyn i'r dosbarth tra defnyddiol hwnnw o lyfrau."

Felly am bris o £17.50 - sy'n deg dros ben am lyfr 700 tudalen, clawr caled - cynigir i chi waith anhepgor i'ch cartref ac i'ch plant a hefyd llyfr a gysodwyd ac a argraffwyd yng Nghymru.

Golygwyd y Cydymaith gan Meic Stephens, Cyfarwyddwr Llenyddiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, ar ran yr Academi Gymreig. Tasg wyth mlynedd o baratoi oedd hwn ac un a fydd yn werth y llafurio caled. Cyfrannwyd i'r llyfr gan dros 200 o Gymry llengar a gwybodus er mwyn sicrhau fod gan lenyddiaeth ein gwlad y parch a'r statws a haedda ymhlith llenyddiaethau eraill y byd.

Cyhoeddir Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru gan Wasg Prifysgol Cymru, ar ran yr Academi Gymreig, ac fe fydd ar werth yn eich siop lyfrau lleol o 27 Chwefror ymlaen. Brysied i'w brynu - nifer cyfyngedig a gyhoeddir.

ARTISTIAID I DEITHIO I AMERICA

MAE CYNGOR Celfyddydau Cymru wedi rhoi grantiau i dri artist i'w helpu gyda gwaith astudio yn America. Mae'r grantiau, a ddyfarnwyd yn ddiweddar mewn cyfarfod o Bwyllgor Celf Cyngor Celfyddydau Cymru, yn rhan o gronfa a sefydlwyd i helpu artistiaid i ehangu eu gwaith, eu medrau a'u profiad drwy deithio ac astudio. Cyfanswm y tri grant yw £3,892.

Bydd yr artist Adrian Butler o Ferthyr a'r artist Sue Hunt o Gaedydd, ill dau'n aelodau o'r grwp celfyddyd The Pioneers ac yn beintwyr murluniau profiadol, yn ymweld a'r Ganolfan Adnoddau yn Los Angeles i ymchwilio i baentio murluniau cyhoeddus yn America. Bydd eu casgliadau'n rhan o seminar penwythnos a gynhelir yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter yng Nghaerdydd.

Bydd yr artist a'r ffotograffydd o Aberystwyth, Keith Morris, yn teithio i San Fransisco i weithio ar fudiadau ffotograffig cyfredol yn yr Unol Daleithiau.

# TORTH O FARA

EFALLAI BOD y gelynion Sacsonaidd ychydig llai milain y dyddiau hyn nag yr oeddynt yn oes y Brenin Cadwallter. Serch hynny, parheir i ddefnyddio cennin fel sumbol o Gymreictod nid yn unig ar Ddydd Gŵyl Dewi, ond hefyd gan nifer o gefnogwyr ein byddin o grysiau cochion. Ac fe ddewiswyd cenhinen hefyd ar gyfer cynllun y bunt "Gymreig" (er i un arbenigwr ddweud wrthyf mai cenhinen o Sir Gaerhirfryn ac nid un Gymreig sydd yn y cynllun!)

Mae hanes diddorol iawn i'n sumbol cenedlaethol. Credir bod cennin wedi cael eu trin gyntaf fel planhigyn ar gyfer bwyta tua tair mil o flynyddoedd yn ôl yn ninasoedd Sumer. Roedd yr Ymerawdwr Nero yn bwyta allium porrum (ei enw botanegol) yn rheolaidd gan ei fod yn credu eu bod yn gwneud lles i'w lais a'i wddf. Credai llysieuwyr hefyd, yn y dyddiau gynt, bod cennin yn llesol, er na wyddent ar y pryd eu bod yn cynnwys fitaminau A ac C. Dyma'r cyngor a roddwyd ganddynt: "Eat leeks in Lide (mis Mawrth) and ramsons (garlleg gwyllt) in May. Then all the year after physicians can play".

Erbyn heddiw tyfir gwerth £10 miliwn o gennin y flwyddyn ym Mhrydain yn bennaf yn ardaloedd dyffryn Tafwys, Evesham, Sir Gaerhirfryn ac Ynys Elai. Ond, yn anhebyg i lysiau eraill, tyfir y rhan fwyaf ohonynt mewn gerddi marchnad yn hytrach na gan arbenigwyr ar ffermydd enfawr. Maent yn gnwd poblogaidd gyda'r cynhyrchwyr sy'n tyfu llysiau salad gan bod cennin yn asio'n dda gyda'r rhaglen o dyfu'r llysiau eraill.

Gellir tyfu cennin mewn gwahanol fathau o bridd ond maent yn gwerthfawrogi cael tail. Mae'r cennin sy'n fferfrynnau gyda rheolau'r Farchnad Gyffredin yn rhai a choes wen hir gydag ychydig o ddail gwyrdd, ond ym marn rhai sy'n tyfu'r planhigyn ceir gwell blas ar y cennin a dyfir yn aml iawn mewn gerddi bach, sef math "Empire" a "Musseburgh". Mae'r rhain yn aeddfedu yn yr Hydref a gellir eu defnyddio yn gyfan wedi eu ageru a'u gweini gyda saws caws neu'n oer gyda dresin olew a finegr. Gellir hefyd rhoi ychydiig o gennin crai mewn salad gaeaf.

Dyma ddau rysait i chi eu profi:

## CENNIN A REIS AU GRATIN

(i bedwar o bobl)
pwys o gennin
3 owns o fargerin neu fenyn
3 llond llwy fwrdd o flawd plaen
hanner peint o stoc ysgafn (ciwb cyw iar)
3 llond llwy fwrdd o win gwyn
4-6 owns o gig wedi'i ferwi (ham)
4 tomato
3 owns o reis (gwyn neu frown) wedi'i goginio
4 owns o gaws wedi'i falu'n fân
12 owns o ddarnau o gnau ffrengig
pupur a halen

1. Coginiwch y reis mewn dwr berwedig.
2. Sleisiwch y cennin i ddarnau hanner modfedd o faint, golchwch yn drylwyr.
3. Coginiwch y cennin mewn 2 owns o'r margarin am tua 10 munud.
4. Ychwanegwch, oddi ar y gwres, y blawd, stoc, gwin, pupur a halen. Berwch am 3-4 munud gan ei droi trwy'r amser.
5. Torwch yr ham yn ddarnau bach ac ychwanegwch i'r saws.
6. Tynnwch y croen oddi ar y tomatos (daw i ffwrdd yn rhwydd wrth eu rhoi mewn dwr berwedig am ychydig, neu eu sefyll ar fforc, dros fflam nwy neu stof). Yna sleisiwch y tomatos a'u rhoi ar waelod dysgl. Ychwanegwch y cymysgedd o gennin.
7. Cymysgwch y caws, reis a'r cnau gyda'i gilydd, yna arllwyswch dros y cennin. Coginiwch am 25-30 munud ar nwy 4, trydan 180c.

(Nid yw'r saig hwn yn addas i'w rhewi.)



## PARSELI CENNIN A CHIG MOCH

hanner pwys o grwst brau (defnyddiwch flawd gwennith cyfan).
6 cenhinen
4 darn o gig moch
1 wy
pupur a halen

1. Golchwch y cennin yn dda, yna torrwch yn ddarnau man.
2. Torrwch y cig moch yn ddarnau bach a ffriwch am bum munud (nid oes angen ychwanegu saim). Ychwanegwch y cennin a choginiwch hyd nes eu bod yn feddal. Gadewch i'r cymysgedd oeri. Ychwanegwch pupur a halen.
3. Gwnewch y crwst brau. Rholiwch y crwst allan a thorwch sgwariau ohono tua 5-6 modfedd o faint.
4. Rhannwch y gymysgedd cennin rhwng y sgwariau gan ei osod yng nghanol pob sgwar. Brwsiwch min y crwst gyda dŵr, yna dewch a'r corneli i'r canol gan eu selio'n dda.
5. Os oes crwst ar ôl gwnewch "ddail" ohono i addurno'r parseli. Yna brwsiwch gyadg wy a choginiwch am 15-20 munud, gwres nwy 6, trydan 200c.

---

Os hoffech baratoi rhywbeth gwahanol i ddathlu'r pasg rhowch gynnig ar un neu fwy o'r ryseitiau canlynol:

## BISGEDI'R PASG O WLAD GROEG

4 owns o fenyn neu fargarin
4 owns o siwgr gwyn man
2 melyn wy
8 owns o flawd plaen
cwarter llond llwy de o sinamon a sbeis cymysg
2 llond llwy fwrdd o laeth

1. Curwch y menyn a'r siwgr gyda'i gilydd. Yna curwch y ddau melyn wy i mewn, un ar y tro.
2. Ychwanegwch y blawd a'r sbeis gyda'r llaeth. Cymysgwch yn dda.
3. Tylinwch y cymysgedd yn ysgafn ac yna rhowch mewn bag plastig yn yr oergist am tua awr.
4. Rholiwch y cymysgedd i drwchder o tua cwarter modfedd. Torwch i gylchoedd, brwsiwch gyda gwyn wy a taenwch gyda hadau sesame neu goconyt.
5. Coginiwch am 15-20 munud, gwres nwy 4, trydan 180c.

---

## CACENNAU CAWS O RWSIA

Y Crwst:
6 owns o flawd plaen
3.5 owns o faragin neu fenyn
un llond llwy fwrdd o siwgr gwyn man
1 melyn wy
y gweddill:
4 owns o gaws ceuled (curd)
3 llond llwy fwrdd o hufen
owns a hanner o siwgr mân
owns o almwnau wedi'u malu
owns o syltanas
1 wy
hanner llond llwy de o nutmeg
sudd a chroen hanner lemwn (wedi'i ratio'n fan)

1. Gwnewch y crwst (yn yr un dull a chrwst brau) gan ddefnyddio'r wy wedi'i gymysgu gyda 2 llond llwy fwrdd o ddwr i'w wneud yn does meddal, ond ddim yn wlyb. Rhowch mewn bag plastig yn yr oergist am tua hanner awr.
2. Yn y cyfamser gellir paratoi'r llenwad. Curwch y caws gyda'r hufen yna ychwanegwch y cynhwysion eraill. Cymysgwch yn dda.
3. Defnyddiwch y crwst i wneud tua 18 o gistiau bychan mewn tuniau pate. Rhowch ychydig o'r cymysgedd caws ym mhob un. Defnyddiwch y crwst sydd ar ôl i wneud croes ar bob un o'r cacennau.
4. Coginiwch am tua 30 munud ar wres nwy 5, trydan 190c.

---

## TORTH BRAG

Defnyddiwch jwg mesur ar gyfer y cyhwysion. Rhaid cychwyn ei baratoi diwrnod cyn ei bobi.
peint o resyns
hanner peint o siwgr brown tywyll meddal
2 llond llwy fwrdd o rin brag ("malt extract)
hanner peint o de oer
1 wy
peint o flawd codi

1. Rhowch y resyns, brag, te a'r siwgr mewn bowlen, cymysgwch yn dda a gadewch dros nos.
2. Ychwanegwch yr wy a'r blawd, cymysgwch yn dda a rhannwch rhwng dau dun torth pwys (wedi'u iro).
3. Coginiwch ar wres nwy 3, trydan 160c am awr i awr a chwarter.
4. Gellir gweini'r dorth wedi'i addurno gydag eisin sglein (glace) a sinsir a cheirios wedi'u crisialu.

## Arddangosfeydd MAWRTH

ORIEL, 53 Heol Siarl

Crefft 86
15 Chwefror - 5 Ebrill
Detholiad o grefftwaith cain gan wneuthurwyr yng Nghymru.

TY TURNER, Plymouth Road

Cymdeithas Dyfrlliw Cymru
21 Mawrth - 27 Ebrill
Arddangosfa o waith amrywiol aelodau'r Gymdeithas.

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

Crefftwyr Celf Cyfoes
Y mis hwn, gwaith pedwar crefftwr - Cecil Coyler, turniwr a gweithiwr mewn coed ac addurniadau mewn arian.
John Ward - gwaith cerameg.
John a Joycelyn Pardoe - gemwaith.

AMGUEDDFA DIWYDIANT A MOR CYMRU

Ffantasia Rolls-Royce
Tan Ebrill 13.
Y mae'r artist David Weston wedi dethol 25 o'i baentiadau sy'n darlunio stori ceir Rolls-Royce. Hefyd, lluniau o'r ddau brif gymeriad, yr Anrhydeddus Charles Rolls o Fynwy a Frederick Henry Royce. Hanes anturus datblygiad balwn, awyrennau a cheir arbennig iawn.

# Pethau'n galed ar y bechgyn

MAE'N EDRYCH yn debyg y bydd y tymor peldroed presennol yn ymestyn hyd dechrau'r tymor nesaf a thu hwnt. Mae'r tywydd, mewn un gwisg neu arall, wedi gorfodi gohirio llawer o'r gemau o ddiwedd Tachwedd hyd ddechrau Chwefror bron. Glaw a mwd i gychwyn, ac yna'r cyfnod oer a gwyntog yr ydym o hyd yn ei ganol, yn rhewi pob gwelltyn a blewyn, a'r maes o'r herwydd yn fwy tebyg i ddarn o goncrit.

Do, fe chwaraewyd ambell i gem ar y llain caled, a do fe welwyd ambell i ambiwlans yn rhuthro i'r maes i gludo rhyw anffodusion i'r ysbyty wedi tacl neu gwymp anlwcus. Diolch i'r drefn na ddigwyddodd dim byd tebyg i unrhyw aelod o Glwb Cymric nac i dim Aelwyd-yr-Urdd.

Efallai y cofiwch mai digon dilewyrch oedd pethau ar y ddau dim yn niwedd 1985 ac i fod yn onest, ar waelod y tabl yr oeddynt bryd hynny - timau cryf yn ôl rhai - rhaid bod i ddal y gweddill i fyny!

Wel, ydi ail hanner y tymor wedi bod yn rhywfaint mwy llewyrchus a beth yw'r rhagolygon ar gyfer diwedd y tymor a'r tymor nesaf? Ydi a nac ydi ydi'r ateb i'r cwestiwn cyntaf, ac yn y fantol mae dyfodol y ddau dim fel ei gilydd.

Tydi Clwb Cymric erioed wedi ei hadnabod fel tim cwpan, ond mae argoelion fod newid ar fyd eleni, efallai o leiaf, oherwydd mae'r tim trwodd i rownd gyn-derfynol Cwpan Ninian Stuart, ac yn nhrydedd rownd Cwpan Cefnogwyr tim y Ddinas.

Fe gofiwch am y farathon yn erbyn Llanedeyrn, ac yna'r gem anffodus yn erbyn tim papur Wiggins Teape pryd yr enillodd y Clwb o bedair gôl i dair ym munudau olaf y gêm. Yn y rownd go-gyn derfynol cafwyd buddigoliaeth o bump gôl i dair yn erbyn hen gyfeillion o'r Ail Adran, St Mary's - ond hynny ar ôl gorfod ymladd yn galed o'r eiliadau cyntaf, a bod ar ei hol hi ddwywaith yn ystod y gêm. Roedd na fwd, 'roedd na law, 'roedd na wynt, ac 'roedd yn fil o gamgymeriadau o'r naill dim a'r llall, ond dyna braf oedd clywed y chwiban olaf yn dynodi taith y tim i'r rownd gyn-derfynol am y tro cyntaf yn ei hanes. Sgoriwyd y goliau gan Martin 2, Dewi "Chips" 2, a Cerith.

Stori go debyg oedd hi yn y gêm gwpan arall hefyd, y tro hwn yn erbyn tim Trelai ar eu tomen eu hun. Tim o'r un adran a'r Cymric, a thim a oedd eisioes wedi rhoi chwip din iddynt yn gynnar yn y tymor o chwe gôl i ddim. Melys oedd cael talu'r pwyth yn ôl iddynt y tro yma, gan eu chwipio nhw i ebargofiant heb fawr o drafferth yn y diwedd o dair gôl i un.

Fel petai hynny ddim yn ddigon, 'roedd gem gyngrair yn eu herbyn yr wythnos ganlynol, ac i rwbio halen i'r briw, cafwyd buddigoloaeth ysgubol yn eu herbyn unwaith yn rhagor o dair gôl i ddwy y tro yma. Talu'r pwyth a mynd un yn well yn wir. Dwy gôl i Cerith y tro yma, ac un fendigedig i John y cefnwr, a lwyddodd i godi'r bêl yn gelfydd dros ben y golgeidwad o bellter o gryn ddeg llath ar hugain, i mewn i'r rhwyd.

Chwarewyd dwy gêm gyngrair arall hefyd yn ystod y cyfnod yma, y gyntaf yn erbyn tim Heath Hornets ddiwedd Ionawr, a'r ail yn erbyn St Patricks ar Sadwrn olaf mis Chwefror.

Gem gyfartal oedd y cyntaf, un gôl yr un, ond gêm a enillwyd yn wirioneddol gan y gwynt cryf. Yn wir, cymaint oedd rhyferthwy'r gwynt fel nad oedd yn bosibl bron â chael gwared o'r bêl o'r cwrt cosbi yn un pen i'r cae trwy gydol y gêm.

Ond y gêm yn erbyn St Patricks a roddodd fwyaf o foddhad a mwynhad i'r Cymric. Roedd maes Sevenoaks wedi meddalu rhywfaint o dan haul euraidd y mis bach, ac roedd syrthio arno yn gryn dderbyniol wedi'r concrit yr wythnosau cynt!

Ymosod o'r cychwyn oedd y fenter a llwyddwyd i rwydo o ben Simon yn yr hanner cyntaf i gael mantais haeddiannol cyn hanner amser. Daeth y gwrthwynebwyr yn ôl i'r gem fymryn yn ystod yr ail hanner a llwyddo i lefelu'r sgôr - ond yna gyda hyder, chwarae celfydd, herio ac ymladd am bob pêl, cafwyd dwy gôl arall i'r Cymric i selio buddugoliaeth wych o dair gôl i un ar ddiwedd y dydd. Pwysau cyson yn dod â'r ail gôl o droed un o'r gwrthwynebwyr, a symudiad hyfryd yn cael ei orffen yn daclus o ben y capten Huw bach yn dod â'r drydedd gôl.

A dyna ni, neu fel'na mae, chwedl y gyfres deledu, dyna hynt a helynt diweddaraf Clwb Cymric. Fe sylwch, wrth reswm nad yw'r tim wedi colli hyd yma ym 1986, ond mae llawer o waith ac ymdrechu caled i'w wneud i sicrhau eu lle yn y "Premier", ac ni ellir llaesu dwylo (na sannau) hyd ddiwedd y tymor. Deg gem gynghrair ar ôl, ac angen o leiaf pedair buddugoliaeth i wneud yn saff o hynny. Naw pwynt ar hyn o bryd ac angen sachaid arall ar frys. Croeswch eich bysedd wnench chi!

Tydi pethau ddim yn dda o du'r Aelwyd - er iddynt hwythau hefyd sicrhau buddugoliaeth arbennig dros y tim sydd yn drydydd yn eu cynghrair o bedair gôl i un ar Sadwrn olaf y mis bach. Dwy gôl wych i John yn ystod y gem yma.

Un canlyniad cyfartal o un gôl yr un pythefnos ynghynt, ond tydi'r pwyntaiu ddim yn ddigon i'w codi o waelod y tabl. Maent un pwynt o godi o'r gwaelod, ond dim ond pedair gêm gynghrair ar ôl. Rhaid ennill pob un o'r gemau rheini os am gadw eu lle yn Adran Pedwar o'r gynhrair. Pob lwc i Twics a'i griw felly yn y frwydr am einioes y clwb.

Gobeithio'n wir na wireddir y pwt bach yma o graffiti gogleisiol a glywais ei grybwyll am glwb peldroed Chelsea pan oeddynt ar waelod yr Adran Gyntaf ychydig flynyddoedd yn ôl. "Chelsea are magic" oedd yr ysgrif cyntaf, ond roedd rhyw hen wag wedi rhoi ei stamp pellach odditano "watch them disappear from the first division".

Hwyl am y tro a daliwch i gredu.


A ydych yn priodi eleni?

Ffotograffiaeth Creadigol gan

**GWENAN**

**CAERDYDD 732233**

Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.


# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Dydy'ch bywyd personol ddim yn fêl i gyd ar hyn o bryd. Canolbwyntio ar y gwaith fyddai orau er mwyn anghofio'r cyfan, ond fe ddylai fod mwy o arian gennych y mis hwn.

TAURUS: Rydych yn fwy byrbwyll nag arfer nawr - gofalwch rhag llosgi'ch bysedd wrth chwarae â thân. Bydd pethau'n mynd yn hwylus iawn yn y gwaith. Cewch gysur o arddio neu ddiwrnod yn y wlad.

GEMINI: Mae newidiadau mawr o'ch blaen yn enwedig yn y gwaith. Peidiwch â gadael i neb na dim eich synnu. Gallwch oresgyn problemau yn y cartref trwy adael i eraill gymryd yr awenau.

CANCER: Bydd sawl elfen yn eich bywyd yn newid yn ystod 1986 - gan ddechrau'r mis hwn. Ceisiwch beidio â chweryla gyda'ch teulu na'ch cyfeillion - chi fydd ar fai, nid nhw!

LEO: Mis ardderchog i symud tŷ neu i harddu'r cartref. Mi ddylech wella'ch byd yn sylweddol y mis hwn. Bydd llawer ohonoch yn syrthio mewn cariad - gofalwch na fyddwch yn syrthio i ddwr poeth yr un pryd!

VIRGO: Tua chanol y mis daw'r planedau a storom o ryw fath i'ch bywyd personol, ond ar ei hôl byddwch yn barod i wynebu bywyd mwy hamddenol, ond gwell. Mae rhywun yn y gwaith yn eich erbyn.

LIBRA: Rydych mewn cyfyng gyngor ar hyn o bryd, ond dim ond chi all wneud y penderfyniad sy'n ymwneud â'ch bywyd personol - a bydd yn rhaid ei wneud bellach, neu fe fyddwch yn colli llawer.

SCORPIO: Erbyn hyn rydych wedi sylweddoli mae'n siwr fod pethau sylfaenol yn eich bywyd - a feddylioch chi flwyddyn yn ôl y byddech yn y sefyllfa hon heddiw? Ac mae rhagor i ddod!

SAGITTARIUS: Rydych chi'n anfodlon cyfaddawdu ar hyn o bryd. Rhaid anelu am y nod - a chyflawni. Bydd raid i eraill werthfawrogi'ch gwerth bellach - a fe wnan nhw - ond i chi fod yn amyneddgar!


CAPRICORN: Bydd gennych yr hyder y mis hwn i waredu'ch bywyd o elfennau dibwys a dianghenraid. Peidiwch a bod ofn mynegi'ch barn yn glir a chroyw. Bydd cynod cyffrous iawn yn dechrau ddiwedd y mis.

AQUARIUS: Nid dyma'r mis i ymddiried mewn pobl eraill - efallai y cewch eich twyllo - yn enwedig mewn materion ariannol. Fe gawsoch rybudd! Gwell canolbwyntio ar newidiadau anorfod yn y gwaith.

PISCES: Fel rheol bydd Mawrth yn fis da i chi - ond nid eleni rwy'n ofni. Byddwch yn talu nawr am addewidion a wnaethoch beth amser yn ôl - caiff eraill eu siomi gennych - twt! twt!

GENI:
Llongyfarchiadau i Clive a Linda Harpwood, Sir David's Avenue, Treganna ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Llyr.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 59



AR DRAWS:

1. Swatiai y gath a'r ci, ar y cyd, yn un pentwr. (8)
9. Tyrfa swnllyd? (8)
10. Rwy'n slotian. (4)
11. Plismon gwryw yn troi yn fêl i gyd. (6,1,5)
13. Duw Ffrengig yn blaenu'r og yn ddifai. (6)
14. Caiff rym o Bwyl i gerdded yn drafferthus. (8)
15. Ho! Lleoedd i aros mewn steil! (7)
16. Ffiesta'r Cymry. (3,4)
20. Deuthum allan o'm hun. (8)
22. Betio yn afresymol ar ran gyntaf y mabolgampau. (6)
23. Cynheiliaid y seiat yn ein dydd ni. (12)
25. Y praidd yn epilio. (4)
26. Rhodder sylw. (8)
27. Un yn D.C., un yn anial, bron, a'r trydydd wrth y 4. (8)

I LAWR:

2. Trefnir llawer o'r hyn a fydd yno i'm paratoi at ryfel. (8)
3. Defnyddiol pan fyddant yn gyhoeddus. (12)
4. Diffaith yw stori felly. (8)
5. Un i helpu'r peilot? (7)
6. Anghyfannedd. (6)
7. Un o briodoleddau'r Nant. (4)
8. Felly y Rhufeiniaid a aeth i'r canol, gan wasgar unedau'r Foel! Dyna gred ddisail! (8)
12. Ysfa sy' ym mêr gwŷr i wneud rhannau penodol o'r gwaith. (12)
15. Tan yrwan. (3,2,3)
17. Seddau i gywion Seisnig annosbarthus. (8)
18. Go brin fod gwneud ymdrech arbennig yn golygu trywanu dy hun a chyllell. (8)
19. Mae'r seiri, ill dau, wedi trefnu i eistedd yn y Tŷ. (7)
21. Rwy'n mynd ag ymadrodd i greu hwyl. (6)
24. Enw cyntaf Tomos. (4)

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 58

AR DRAWS:
1. Addysg; 4. Argraffdai; 9. Chwedlonol; 10. Tadau; 11. Llefain; 12. Ynfydion; 14. Danfonaist; 16. Agos; 19. Gast; 20. Dwyreiniol; 22. Abergele; 23. Banllef; 26. Fechan; 27. Arogleuai; 28. Gwrthnysig; 29. Mudan.

I LAWR:
1. Archolledig; 2. Y Ferf; 3. Gylfinod; 4. Arno; 5. Galanastra; 6. Actwyr; 7. Dadwisgai; 8. Ieuan; 13. Ffarweliais; 15. Nos Fercher; 17. Sglefriwn; 18. Cic Adlam; 21. Eginyn; 22. Arfog; 24. Lleuad; 25. Llosg.

CYSTADLEUAETH RHIF 58:
Daeth naw ymgais i law, saith ohonynt yn hollol gywir, a'r ddau arall a man-lithriadau. Enw Sylvia Evans, 21 Gelligaer Gardens a ddaeth o'r het. Y chwech arall oedd yn hollol gywir oedd: Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; Rhian Williams, Lakeside; John Hughes, Llanishen; B.H., Cyncoed; Marged Davies, Llandaf; a A.M.Lake, Llanfihangel-ar-Elai.

CYSTADLEUAETH RHIF 59:
Tocyn llyfrau Cymraeg gwerth £5 y mis hwn eto! Enw a chyfeiriad ar ymyl y Croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, erbyn 15 Mawrth, os gwelwch yn dda.


## Swyddog Cytundebau

Mae gennym swydd wag ar gyfer Swyddog Cytundebau yn ein Canolfan Deledu yng Nghroes Cwrlwys, Caerdydd.

Bydd y person a benodir yn atebol i'r Rheolwr Cytundebau gyda chyfrifoldeb arbennig am drafod a thynnu allan gytundebau gydag asiantyddion, artistiaid, cerddorion a chyfranwyr a fydd yn cymryd rhan yn rhaglenni y cwmni a ddarlledir ar Sianel Pedwar Cymru.

Dylai'r ymgeiswyr fod â chefndir a phrofiad cyfreithiol ac/neu weinyddol, ynghyd â gallu o'r radd flaenaf i ysgrifennu a siarad Cymraeg. Mae personoliaeth ddymunol a'r ddawn i weithio o fewn yr Adran Gytundebau bresennol ar lefel uwch yn angenrheidiol.

Cyflog circa £15,000 y flwyddyn.

Dylai ymgeiswyr cymwys anfon am ffurflen gais gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig a nodi y cyfeirnod DI/494 at y Rheolwr Personel, HTV Cyfyngedig, Y Ganolfan Deledu, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 6XJ.

YR YDYM YN GYFLOGWR CYFLE CYFARTAL

HTV

WALES S4C CYMRU
Sianel Pedwar Cymru

Nawr bod S4C yma i aros, mae angen llenwi'r swyddi canlynol:

### CYNORTHWY-YDD CYFRIFON

Person i gynorthwyo gyda goruchwylio a dadansoddi manylion ariannol a gwybodaeth sy'n deillio o brif gytundebau rhaglenni S4C.

Byddai'r ymgeisydd delfrydol yn gyfrifydd rhannol gymwysedig gyda phrofiad mewn dadansoddi gwybodaeth ariannol gymhleth, a'r gallu i ddefnyddio cyfrifiadur.

Cyflog ar raddfa: £7,971 - £9,703

### CYNORTHWY-YDD
yn yr Adran Personnel

Bydd y person a benodir a phrofiad o weithio mewn sefyllfa sy'n ymdrin â materion hollol gyfrinachol.

Yn ogystal â chymwysterau addysgol ac ysgrifenyddol da, mae'r gallu i ddelio a gweithio dan bwysau yn hanfodol.

Cyflog ar raddfa: £7,183 - £8,812

### YSGRIFENYDDES
yn Adran y Wasg

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod wedi cael profiad o weithio mewn swyddfa brysur.

Cymwysterau teipio ac addysgol da yn angenrheidiol a byddai profiad o weithredu prosesydd geiriau yn fantais.

Cyflog ar raddfa: £5,742 - £7,183

**Ffurflenni cais oddi wrth:**
**Mrs Mair Owen, S4C,**
**Clos Sophia,**
**Caerdydd CF1 9XY**

(Dyddiad cau: Mawrth 4 1986)

# APÊL TŶ MAWR

BETH AMSER yn ôl daeth Tŷ Mawr Wybrnant i feddiant yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; hen ffermdy diarffordd ychydig filltiroedd o Fetws-y-Coed a man geni yr Esgob William Morgan, y person cyntaf i gyfieithu'r Beibl cyfan i'r Gymraeg a goruchwylio'r gwaith o'i argraffu ym 1588, mewn cyfnod cynnar iawn yn hanes argraffu.

Ym 1988 byddwn yn dathlu pedwar can mlwyddiant y cyfieithiad a gafodd effaith ddofn ar yr iaith Gymraeg a'i threftadaeth, crefydd a bywyd y werin.

Nid oes cofadail penodol yn bod i'r Esgob William Morgan. Mae un ystafell yn Nhŷ Mawr wedi bod ar agor i'r cyhoedd ers peth amser ac mae nifer dda wedi ymweld â'r tŷ yn ystod y cyfnod yma. Ar gyfer y pedwar canmlwyddiant gobeithia'r Ymddiriedolaeth adfer Tŷ Mawr gystal ag sydd bosibl i'r hyn ydoedd ym 1588, fel cofadail i'r esgob. Mae addewidion am rai dodrefn addas eisoes wedi ei derbyn.

Er mwyn ein galluogi i wneud y gwaith yma, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi sefydlu Apêl Tŷ Mawr - nod yr Apêl fydd £175,000 a gobeithir dechrau'r gwaith eleni. Rydym hanner y ffordd at gyrraedd y nod yma yn awr ond mae angen £40,000 arall cyn y medrwn ddechrau'r gwaith. Pan fyddwn wedi casglu hyn byddwn yn derbyn swm cyffelyb o ffynhonnellau eraill a theimla'r pwyllgor mai dyma'r amser y gallwn fod yn siwr ein bod wedi cyrraedd y targed.

Mae Apêl Tŷ Mawr yn un arbennig iawn i bawb sydd a diddordeb yn yr iaith Gymraeg a'i threftadaeth a bywyd crefyddol. Mae rhai eisoes wedi cyfrannu. Gofynnwn am gefnogaeth pawb - gallwch ein helpu gyda chyfraniad neu drwy gynnal bore coffi, dewch a phrynwch ac yn y blaen.

O hoffech gyfrannu fel unigolyn, gallwch gefnogi trwy fod yn "Gyfaill Tŷ Mawr". Bydd cyfraniadau o £10 neu fwy yn cael eu cofnodi yn ein llyfr "Cyfeillion"; un o ddau lyfr wedi eu paratoi yn arbennig ar gyfer yr Apêl gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru. "Er Cof" yw'r llyfr arall; llyfr a fydd yn cynnwys cofnod o berthynas neu gyfaill am gyfraniad o £100 neu fwy. Gwneir cofnod o dudalen gyfan am gyfraniad o £100 neu fwy yn y ddau lyfr.

Gallwch anfon eich cyfraniadau i "Apel Tŷ Mawr", Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Sgwar y Drindod, Llandudno, Gwynedd, LL30 2DE neu i Gadeirydd yr Apêl, Mrs. Anne Murphy, Plas Nantcol, Llanbedr, Gwynedd, LL45 2PL, a fydd yn barod i roi mwy o wybodaeth, os dymunwch, yn Gymraeg neu yn Saesneg.


Anne Murphy.

## CYLCH MEITHRIN DINAS POWIS

CAFWYD NOSON arbennig i ddathlu Gŵyl y Santes Dwynwen ddiwedd mis Ionawr. Roedd Neuadd y Plwyf dan ei sang a'r lle'n frith o flodau a chalonnau cochion. Cawsom ddigon o fwyd a diod a sbort a sbri y twmpath dan arweiniad Rhodri a Chris John. Mrs.Moyra Owen a'i Phwyllgor Gweithgar oedd yn gyfrifol am lwyddiant y noson.

Cofiwch neilltuo noson Ebrill 19 pan fyddwn yn cynnal Noson Caws a Gwin. Bydd Caryl Parry Jones a'i ffrindiau yn dod atom - edrychwn ymlaen at noson i'w gofio. Cysylltwch â Phenarth 701877 unrhyw brynhawn neu ar ôl te os hoffech gael tocynnau. Dewch yn llu i'n cefnogi ni yn Ninas Powis.

# CYSTADLEUAETH



Dyma lun arall o adeilad adnabyddus yng Nghaerdydd, ond fel arfer, mai ffotograffydd cyfrwys y Dinesydd wedi llwyddo i dynnu llun o ongl anghyfarwydd. Os ydych chi'n meddwl eich bod yn adnabod yr adeilad ac am ennill un o wobrwyon hynod eich papur bro (llawer gwell na bingo'r Sun a'r Star!) anfonwch eich ateb, ynghyd a'ch henw a'ch cyfeiriad atom erbyn 20 Mawrth.

# O'R TABERNACL

Prif Westai Cinio Gŵyl Ddewi'r Gymdeithas Nos Fawrth eleni yw T.J.Rhys Jones, Y Creigiau. Un arall o aelodau'r eglwys a oedd yn Brif Westai ar yr achlysur gyda Chymrodorion Caerdydd oedd Gwynn Tudno Jones. Deallwn fod Gwyn wedi cael ymateb rhagorol iawn i'w apêl radio dros MIND yn ddiweddar.

Mewn ymateb i apêl Cyngor Eglwysi Cymru a Chymorth Cristnogol gyda golwg ar Ŵyl y Cyngor yn Llanelwedd, addawodd ieuenctid yr eglwys godi swm o £100 tuag at y nod o £40,000 rhwng 400 o fudiadau ac eglwysi yng Nghymru. Deallwn fod y tennis bwrdd nawdd a gynhaliwyd yn ddiweddar yn debygol o drebli'r nod.

Sul olaf y mis yw Sul traddodiadol ein Cyrddau Mawr, ond gan fod y dyddiad yn cyd-fynd â'r Pasg, a chynifer yn mynd oddi cartref, ni bydd pregethwr gwadd eleni. Er hynny, fe nodir y dyddiad fel dathliad 165 penblwydd agor y capel cyntaf ar y safle presennol. Dechreuasai'r Achos rhywbryd rhwng 1812 ac 1814.

**Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).**

CYMDEITHAS GYMRAEG DINAS POWYS

TRIST YW cofnodi marwolaeth Emlyn Howells, un o aelodau hynaf ein Cymdeithas. Roedd "Em" yn gymeriad hoffus, parod ei wen a'i gymwynas ac nid oedd neb yn fwy ffyddlon i holl gyfarfodydd Cymraeg yr ardal nag ef a'i briod Phyllis. Yn ei ddyddiau cynnar roedd Em yn gricedwr ac yn chwaraewr hoci o fri. Hoffai bob math o ganu - yn enwedig y corau meibion Cymreig - ac o ran crefft roedd yn deiliwr o'r radd flaenaf. Yn ei dyb ef doedd neb tebyg i ni'r Cymry a'r iaith Gymraeg. Magwyd ef yn y Sgiwen ac roedd gwrando ar ei hanesion am y fro yn difyrru aelodau'r Gymdeithas Gymraeg bob amser. Cofiwn yn annwyl amdano a chydymdeimlwn yn ddwys â Phyllis a'r teulu.

Cawsom golled arall pan ddaeth y newydd am farwolaeth Dafydd Meirionnydd Parry. Cofiwn am ei ffyddlondeb yn nyddiau cynnar sefydlu'r Gymdeithas a chofiwn yn arbennig am ei lais bas cyfoethog. Roedd yn barod i ymuno â'r cor i'n diddanu ar bob achlysur. Cydymdeimlwn â'i weddw ac â'r merched yn Aberystwyth a'r llall yn Awstralia bell.

Hefyd, bu farw Jackie Williams (gynt o'r BBC) nid oedd Jackie yn aelod o'r Gymdeithas ond roedd yn un o Gymry selog yr ardal. Hoffai sgwrsio mewn Cymraeg graenus ardal Llanybydder - bro ei febyd. Bu'n sal am fisoedd lawer ar ôl cael triniaeth ar y galon. Cydymdeimlwn a'r teulu.

Ar ôl clywed am y colledion braf yw clywed fod John Walters a Gerald Cobbe yn gwella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Gwellhad buan i'r ddau.

Er gwaetha'r salwch a'r tristwch aeth y Gymdeithas ymlaen yn hwylus a hwyliog yn ystod misoedd y Gaeaf. Rydym yn ffodus iawn i gael arweiniad deheuig gan ein Cadeirydd hynaws Dylan John. Roedd Noson y Sgitls a'r byrbryd yng nghlwb B.P. y Sili yn arbennig o dda a rhyw hanner cant o'n haelodau yn dangos eu dawn yn sgitlo - rhai yn methu cyfri, wrth gwrs!

Yna, daeth noson y gemau difyr a'r chwaraeon ar noson tu hwnt o aeafol. Cawsom gampau o bob math gan y tri tim dan arweiniad Eifion Hopwood, Peter Jones a Rowland Owen. Dylan John oedd wrth y llyw, ac roedd wedi bod yn ddyfeisgar tu hwnt.

Edrychwn ymlaen at nos Lun Mawrth 3. Croeso i'n holl aelodau ac i bawb sydd am ymuno â ni yn y Sili i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant.

Owena Hopwood.

## URDD GOBAITH CYMRU

Cynhelir Eisteddfod Sir De Morgannwg ar ddydd Sadwrn 22 Mawrth yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Ar hyn o bryd ni ragwelir y bydd angen eisteddfodau cylch, ond adolygir y sefyllfa ar ol derbyn y ffurflenni cais.

Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru aelodau yn y sir yw 2 Mawrth 1986.

Bydd y ffurflenni cystadlu ar gael o Ganolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. Ffon 36201. Yno, hefyd, dylid eu dychwelyd wedi'u cyfeirio i ysgrifennydd yr eisteddfod.

Os nad ydych eisoes wedi dychwelyd y ffurflenni, yna, ffoniwch y Ganolfan ar unwaith gyda'r manylion.

Alwyn Jones,
Swyddog Datblygu.